# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 13 Hydref, 2022
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Catherine Hughes
Rhys Jones
Tesni Jones
Einir Lewis
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Nia W. Jones
Gareth Roberts
Cynghorydd Sirol - Anwen Davies

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams. Cadarnhawyd cofnodion 08 Medi, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Catherine Hughes ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Einir Lewis.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

***Gor-yrru ym Mhentref Rhydyclafdy*** –

Anfonwyd e-bost ynglŷn â'r mater o yrru ym mhentref Rhydyclafdy a derbyniwyd yr ymateb isod gan Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig:-

*"Diolch am eich ymholiad ac ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.*

*Yn ddiweddar mae swyddogion o'r uned Traffig wedi ymweld a nifer o bentrefi ym Mhenllyn i paratoi am y cyfyngiadau newydd ac yr oedd Rhydyclafdy yn un o ohonynt. Man cychwyn oedd hyn er mwyn paratoi am y drefn newydd 20mya dros ein rhwydwaith. Yn y tymor byr mi allaf hysbysu'r Heddlu o'r sefyllfa gôr-yrru yn y pentref ac ei annog i orfodi'r lleoliadau priodol.*

*Yn y tymor hirach mae'n ofynnol yn ôl y cyfyngiadau newydd i Cyngor Gwynedd ymgynghori gyda cymunedau Gwynedd yn ei gyfanrwydd i amlygu'n bwriad gyda'r drefn cyfyngiadau a fydd. Ni allwn cwblhau'r gwaith yma ar unwaith gan fod y proses paratoi gyfreithiol a technegol yn swmpus ac y terfyn amser yr ydym wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru i ddod ar cyfyngiadau newydd i rym yw Medi 2023.*

*Gwerthfawrogaf eich amynedd gyda'r broses uchod, gan fod gweithrediad y cyfyngiadau newydd yn dod a pwysau gwaith ychwanegol i'r uned pan mae adnoddau yn brin. Mi fyddwn mewn cysylltiad pan fydd yr amserlen gweithredu'r drefn newydd wedi ei terfynu."*

*Gweithdai Ardal Ni 2035*

Bu i'r Cynghorydd Einir Lewis fynychu y cyfarfod yng Ngholeg Meirion Dwyfor ar nos Fercher, 28 Medi, 2022, a diolchwyd iddi.

## 4. Materion gohebiaeth

Cafwyd cais gan **Urdd Gobaith Cymru** am gyfraniad ariannol ond fe benderfynwyd peidio cyfrannu am y tro.

Cafwyd cais gan **Tŷ Gobaith** am gyfraniad ariannol a phenderfynwyd anfon siec o £250.00 atynt.

**Cronfa Covid 19 Llŷn ac Eifionydd** - Derbyniwyd llythyr gan weinyddwyr y gronfa yn gofyn os oeddem am dderbyn yr arian a gyfranwyd tuag at y Gronfa yn ôl.

Penderfynwyd:-- Derbyn y cyfraniad yn ôl.

Y Clerc i anfon e-bost atynt yn cadarnhau hyn.

Ni chymerodd y Cynghorydd Dafydd Ll. Williams drafodaeth ar y mater gan ei fod yn un o'r gweinyddwyr.

## 5. Materion Ariannol

Derbyniwyd cysoniad banc o 4 Medi, 2022 i 3 Hydref, 2022 yn gywir yn y swm o £6213.31.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan y Cynghorwyr Philip Roberts a Catherine Hughes ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Nerys Williams (Mis 7) | £111.79 | Siec Rhif 200684 |
| Cyllid a Thollau (Mis 7) | £28.00 | Siec Rhif 200685 |
| F. Jones (Torri gwellt) | £2110.00 | Siec Rhif 200686 |
| Bartle St. Tudwal's Ltd (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200688 |
| Tŷ Gobaith | £250.00 | Siec Rhif 200689 |

Ni arwyddwyd **siec rhif 200687** (£321.00) yn daladwy i Cyngor Gwynedd am bod angen gwirio'r bil o weinyddu Costau Etholiad ymhellach cyn ei dalu.

**6. Unrhyw fater arall**

Fe dderbyniwyd Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn gywir, a bydd yn cael ei ychwanegu ar y dudalen we yn fuan.

*Materion Priffyrdd*

Holodd y Cynghorydd Phil Roberts beth oedd ymateb Cyngor Gwynedd (ar ôl cyfarfod Mehefin 2022)wedi bod i'r cais o gael arwydd Boduan wedi ei drwsio a'i dacluso. Gan nad oedd y Cynghorydd Anwen Davies yn bresennol yn y cyfarfod heno penderfynwyd ei holi yn y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cynghorydd Catherine Hughes adrodd ei bod yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Sir am wneud gwaith taclus ar yr ail doriad eleni a phenderfynwyd y buasai yn dda o beth anfon at Cyngor Gwynedd i ddiolch iddynt am eu gwaith taclus.

Bu i'r Cynghorydd Rhys Jones adrodd bod rhai o drigolion y pentref wedi ei holi ynglŷn â chael cae chwarae i'r pentref. Penderfynwyd mewn egwyddor cefnogi'r rhieni ond ni fuasai Cyngor Buan yn cymryd cyfrifoldeb am y parc chwarae.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 p.m.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 10 Tachwedd, 2022 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy.